

Corff Llywodraethol Ysgol Abercaseg, Bethesda

Adroddiad Blynyddol i'r Rhieni/Gofalwyr

Cyflwynir yr adroddiad hwn ar sut y cyflawnwyd swyddogaethau'r llywodraethwyr yn ystod y flwyddyn 2015-16.

Pwy oedd aelodau'r Corff Llywodraethol?

<u>Enw</u>	<u>Cynrychioli</u>	<u>Dyddiad ethol/ apwyntio</u>	<u>Dyddiad diwedd eu cyfnod</u>
Hedd Rhys	Rhieni/gofalwr	09/14	08/18
Paul Painter	Rhieni/gofalwr	09/15	08/19
Emma Pritchard	Rhieni/gofalwr	09/13	08/17
Sioned Ryder	Rhieni/gofalwr	09/13	08/17
Emyr Roberts	Cymunedol	09/12	08/16
Gwilym Owen	Cymunedol	09/13	08/17
Bryan Griffiths	Cymunedol	09/13	08/17
Orina Pritchard	Cymunedol	09/15	08/19
Rheinallt Puw	Awdurdod Addysg	09/14	08/18
Ann Williams	Awdurdod Addysg	09/12	08/17
Linda Brown	Awdurdod Addysg	09/12	08/16
Yvonne Griffiths	Athrawon	09/15	08/19
Edwina Griffith	Staff Ategol	09/15	08/19
Sioned Hywel Thomas	Pennaeth (hyd 03/16)		
Ceren Lloyd	Pennaeth Strategol (o 04/16)		

Cadeirydd 2015-16: Rheinallt Puw, Cartrefle, Ffordd Pant, Bethesda, LL57 3PA
Clerc: Eirian Wynne, Bronydd Uchaf, Llanllechid, LL57 3LL

Pryd fydd yr etholiad nesaf am riant-lywodraethwr?

Cynhaliwyd etholiad ar gyfer penodi riant-lywodraethwr yn ystod tymor yr Hydref 2015.

O dan amgylchiadau arferol byddai'r etholiad nesaf ar gyfer penodi riant-lywodraethwr yn cael ei gynnal yn ystod tymor yr Hydref 2017.

Pryd fu'r Corff yn cyfarfod?

2015 - Hydref 21ain, Rhagfyr 2ail, Rhagfyr 7fed

2016 - Chwefror 10fed, Mawrth 23ain, Gorffennaf 6ed

Cynhaliwyd dau gyfarfod ar y cyd â Chorff Llywodraethol Ysgol Pen-y-Bryn i drafod ffedereiddio'r ddwy ysgol. Cynhaliwyd y cyfarfodydd ar Fehefin 21ain, 2016 a Gorffennaf 7fed, 2016.

A gynhaliwyd cyfarfod i rieni gyda'r llywodraethwyr?

Yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Cymru 2013 nid oes rhaid i Gyrrff Llywodraethu ysgolion gynnal cyfarfod blynyddol gyda rhieni. Bellach mae'r Ddeddf yn caniatáu i rieni ofyn

am hyd at 3 chyfarfod gyda llywodraethwyr mewn blwyddyn ysgol. Gellir cael mwy o fanylion ar sut i ofyn am gyfarfod drwy gysylltu â'r ysgol.

Ni dderbyniwyd cais gan rieni yn 2015/16 i gynnal cyfarfod gyda'r llywodraethwyr o dan y ddeddf uchod.

Beth fu'r sefyllfa o ran plant a staffio?

Agorodd yr ysgol ym Medi 2015 gyda 127 o blant ar y gofrestr. Ar ddiwedd y flwyddyn roedd **128** ar y gofrestr.

Cyflogir 4 aelod o staff addysgu llawn amser a 2 rhan amser ynghyd â chymorthyddion i gefnogi'r dysgu ymhob dosbarth. Cyflogwyd Pennaeth llawn amser hyd at fis Ebrill 2016. Wedi hynny gwnaethpwyd trefniant dros dro i rannu Pennaeth Strategol gydag Ysgol Pen-y-Bryn.

Tymhorau a sesiynau

2015/16

TYMOR:

Hydref 2015	1 Medi - 22 Rhagfyr 2015
Gwanwyn 2016	4 Ionawr - 24 Mawrth 2016
Haf 2016	11 Ebrill - 18 Gorffennaf 2016

2016/17

TYMOR:

Hydref 2016	1 Medi - 16 Rhagfyr 2016
<i>(Hanner tymor:</i>	<i>24 - 28 Hydref)</i>
Gwanwyn 2017	3 Ionawr - 7 Ebrill 2017
<i>(Hanner tymor:</i>	<i>20 - 24 Chwefror)</i>
Haf 2017	24 Ebrill - 21 Gorffennaf 2017
<i>(Hanner tymor:</i>	<i>29 Mai - 2 Mehefin)</i>

Sesiynau'r ysgol: 9.00am-12.00pm ac 1.00pm-3.00pm
(Agorir y drysau am 8.50yb.)

Cwricwlwm a threfniadaeth addysg

Mae ansawdd ac amrywiaeth y profiadau dysgu a ddarperir i'r disgyblion ar draws yr ysgol, yn bwysig iawn i ni. Cynigir cwricwlwm eang a chytbwys sy'n cwrdd â'r holl ofynion statudol. Mae'r athrawon yn parhau i adolygu'r cwricwlwm yn gyson yn sgil unrhyw ddatblygiadau newydd ee Fframwaith Cyfnod Sylfaen 2015. Mae'r disgyblion yn dysgu drwy profiadau oddi mewn i'r dosbarth ac yn yr awyr agored. Mae pwyslais mawr ar ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd, TGCh a medrau meddwl y disgyblion ar draws holl feysydd dysgu'r cwricwlwm. Caiff yr medrau yma eu hymgorffori i gynlluniau gwaith tymor hir\canolig\byr yr athrawon a chaiff cynnydd ei dracio yn gyson drwy weithdrefnau tracio a thargedau'r ysgol. Mae hyn yn sicrhau fod pob disgybl yn gwenud cynnydd yn unol â'i allu.

Mae'r dimensiwn Cymreig yn nodwedd gref o fewn y cwricwlwm, lle caiff y disgyblion ddysgu am enwogion, arlunwyr, awduron a chwedlau, yn ogystal â dearyddiaeth Cymru a'r ardal leol.

Anghenion Dysgu Ychwanegol

Mae'r ysgol yn gwneud pob ymdrech i sicrhau fod pob plentyn yn teimlo'n rhan annatod o fywyd a gwaith yr ysgol ac yn cyflawni eu potensial fel unigolion. Mae'r ysgol yn adolygu y

polisi Anghenion Dysgu Ychwanegol yn rheoliadd er mwyn sicrhau cefnogaeth addas i ddisgyblion.

Beth ddiwyddodd yn yr ysgol o ran Anghenion Addysgol Arbennig?

Mae'r ysgol yn gweithredu polisi o geisio adnabod anghenion addysgol arbennig mor fuan â phosibl yng ngyrfa'r plentyn yn yr ysgol gan gysylltu ac ymgynghori â'r rhieni/gofalwyr.

Dyma faint oedd ar y gofrestr ADY ym Medi 2015:

Gweithredu gan yr Ysgol	Mynegi Pryder (Ysgol yn unig)	9
Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy	Cynllun Addysg Unigol gyda chyfraniad asiantaeth allanol	10
Gweithredu 3*	Cynllun Addysg Unigol a chymorth ychwanegol gan athro/athrawes arbenigol	3
Asesu Statudol a Datganiad	Ar Ddatganiad Anghenion Addysgol Arbennig	1

Gosodir targedau unigol penodol a mesuradwy ar gyfer pob disgybl a thrafodir y rhain gyda'r rhieni. Adolygir y targedau yma ddwy waith y flwyddyn.

Roedd cymhorthydd GAD yn cymryd 'grwpiau ymyrraeth' i weithio ar sgiliau llythrennedd a rhifedd.

Mae therapyddion iaith a lleferydd, athrawes arbenigol ac athrawes gwybyddiaeth a dysgu wedi bod draw yn rheolaidd i weld plant sydd ar y gofestr gyda staff yr ysgol yn gweithredu ar eu hargymhellion.

Caiff plant eu tracio'n dymhorol er mwyn mesur unrhyw gynnydd. Mae'r cymorthyddion a'r athrawes AAA yn sicrhau bod yr holl weithgareddau y maent yn eu cyflwyno yn seiliedig ar dargedau unigol y disgyblion. Adroddir yn ôl i'r athrawes ddosbarth a'r cyd-lynnwyr AAA yn gyson ar ddatblygiad y plant.

Beth wnaeth yr ysgol yn y gymuned?

Mae'r ysgol yn ymwybodol iawn o'i rhan bwysig yn y gymuned ac o'r herwydd mae'n ceisio meithrin cysylltiadau a chyfrannu i weithgareddau ar sawl lefel. Dyma grynodedb o weithgareddau y llynedd:

- Cystadlu yn Eisteddfod Dyffryn Ogwen (gwaith cartref a llwyfan).
- Cystadlu yn Sioe Amaethyddol Dyffryn Ogwen.
- Cystadlu gyda gwaith celf a llwyfan yn Eisteddfod yr Urdd.
- Cynnal cyngerdd Nadolig yn Ysgol Dyffryn Ogwen.
- Bu rhai o'r disgyblion yn perfformio mewn cyngerdd Gŵyl Dewi yn Neuadd Ogwen.
- Cynhaliwyd parêd 'Hetiau Pasg', wedi eu gwneud o ddeunyddiau ailgylchu.
- Cyswllt agos ag Ysgol Pen-y-Bryn (ymweliadau ayyb) a chydweithio â nifer o ysgolion ar agweddau cwricwlaidd.
- Cymryd rhan mewn cyngherddau.
- Nifer o ymweliadau gan ymwelwyr i'r ysgol, e.e. yr Heddlu, Cwmni'r Frân Wen, Techniquet, Swyddog 'Cynllun Gwên', Swyddog Addysg o'r Archifdy, Nevill Hughes -

fu'n sôn am Bethesda, Swyddog Tân, arbenigwyr anhwylderau penodol, Seicolegydd Addysg a Therapyddion Iaith.

- Trefnwyd cyfarfodydd i rieni ar e-ddiogelwch ac adnoddau ar wefan Hwb+.
- Trefnwyd clybiau TGCh ar gyfer rhieni a'u plant er mwyn arfogi'r rhieni â'r wybodaeth i gynorthwyo eu disgyblion gartref gan ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd drwy TGCh.
- Cynhaliwyd nifer o glybiau yn yr ysgol – coginio, TGCh, mathemateg, clwb celf yr Urdd.
- Cynhaliwyd ymweliadau addysgol yn ymwneud â thema dosbarth.
- Bu'r disgyblion yn gweld nifer o sioeau yn cynnwys 'Saer y Sêr' a 'Drwg' gan Theatr Bara Caws.
- Cynhaliwyd prynhawn agored i ddarpar rieni.
- Hyfforddi darpar athrawon o Brifysgol Bangor.
- Gweithgareddau codi arian gan y Cyfeillion.
- Casglwyd arian tuag at elusennau lleol a rhyngwladol.

Beth oedd prif dargedau'r ysgol am y flwyddyn 2015-16 a sut llwyddwyd i'w cyflawni?

Blaenoriaeth 1

Codi safonau rhifedd ymhellach gyda ffocws ar wella gallu disgyblion i ddehongli a datrys problemau.

Beth sydd wedi ei weithredu yn effeithiol:

- Deilliannau diwedd BI 2 wedi cyrraedd y nod gyda 50% yn cyrraedd D6, yn rhoi yr ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg.
- D5+ 95.4% - canlyniad rhagorol o gofio anghenion y cohort.
- Adroddiadau monitro a chraffu ar lyfrau ar y cyd yn nodi cyfleoedd cyfoethog i ddatblygu medrau ymresymu a hynny'n drawsgwricwlaidd.
- Taith ddysgu drwy'r dosbarthiadau yn dangos dilyniant a chysondeb wrth gyflwyno geirfa a chysyniadau mathemategol.
- Effaith cymhorthydd medrau allweddol ar gynnydd grwpiau targed yn arbennig o dda – 100% wedi gwneud cynnydd da ac yn cymharu'n dda gyda disgyblion nad ydynt yn PYD.
- Cyfleoedd da wedi digwydd i hybu cefnogaeth a dealltwriaeth rhieni yn y maes – wedi derbyn hyfforddiant.
- Staff yn fwy hyderus wrth ddefnyddio HWB+ - tasgau cyfoethog yn cael eu defnyddio i hybu datrys problemau, data, 'codio'.

Materion gweithredu:

- Dadansoddiad o'r profion cenedlaethol yn dangos bod angen datblygu ymhellach ddealltwriaeth y disgyblion o ddefnyddio ffeithiau rhif a'r berthynas rhwng rhifau – hyn i'w gyflwyno ymhob dosbarth.
- Datblygu dealltwriaeth ymhellach o hyd, pwysau, mas, cynhwysedd, arian.
- Cymhorthydd medrau allweddol i gyd-weithio hefo'r athrawon i dargedu grwpiau yn cynnwys plant PYD i ddatblygu dealltwriaeth o'r anghenion uchod.
- I sicrhau bod cyfleoedd i ddatblygu rhif ar draws y meysydd dysgu yn cyfateb i gyfleoedd llythrennedd.
- I gynllunio cyfleoedd rhifedd penodol ar draws y meysydd dysgu, a hynny yn yr ardal tu allan.
- Athrawes BI 2 i gydweithio hefo athrawes BI 3 i gynhyrchu matiau mathemateg i ymestyn y grŵp MAT.
- Monitro llyfrau yn nodi bod angen mwy o gyfleoedd i ymestyn y grŵp haen uwch/ffiniol – tasgau ymestynnol rhesymu.

Blaenoriaeth 2

Datblygu geirfa a medrau llafar yn bendol yn y meithrin a derbyn.

Beth sydd wedi ei weithredu yn effeithiol:

- Prawf ddarllen – 92% dros 85 o'i gymharu â ALI-82% a Chymru 83%.
- 8% o dan 85 ydi'r ddau blentyn ADY.
- Canlyniad dros 115 dros 10% yn uwch na ALI a C.
- Diwedd CS yn rhoi'r ysgol yn chwarterel 3 – 91.7% (oherwydd 2 blentyn ADY dwys).

- Cynlluniau manwl yn nodi cyfleoedd i ddatblygu medrau llafar, pob dosbarth yn arddangos patrymau iaith llafar fel MPLL.
- Staff cyfan yn modelu iaith lafar gywir – yn dilyn patrymau gweledol o gwmpas yr ysgol – effaith hyn i'w glywed yn iaith ddyddiol y disgyblion. Cofnod ar fideo o'r dysgwyr yn defnyddio – fy nghôt, fy mag ayb.
- Monitro cynlluniau yn gyson yn cefnogi defnyddio'r ardal tu allan.
- Ardaloedd tu allan BI 1 a 2 yn weithredol.
- Cyfleoedd cyson ac effeithiol yn cael eu darparu wrth ddefnyddio apiau ac adnoddau i ymestyn sgiliau darllen a deall.
- 30% o FI 2 yn sgorio dros 115 yn y prawf darllen.
- 82% o'r dosbarth meithrin yn adnabod llythrennau Set 1 Tric a Chlic – y nod oedd 85% yn adnabod llythrennau'r wyddor – targed heriol iawn gan fod mwy na 50% yn cyrraedd yr ysgol yn ddi iaith.
- 83% o'r dosbarth derbyn yn dechrau cyfuno seiniau i ddarllen – y targed oedd 90% - eto, yn darged heriol o wybod fod oddeutu 20% yn blant ADY iaith dwys.
- Yr 'ysgol darllen' wedi ei chreu – disgrifiadau manwl a niferus o bob lefel o'r meithrin i fyny. Yr effaith ddim yn glir gan fod angen amser iddi wreiddio ac i'r staff gysoni eu defnydd ohoni.
- Cyswllt da wedi ei wneud hefo'r rhieni – hyfforddiant a rhannu gwybodaeth.
- Cyrhaeddodd 83% o ddisgyblion B2 D6 ar ddiwedd BI 2 – llawer uwch na'r targed o 47% - effaith strategaethau llythrennedd y dair mlynedd diwethaf.
- Monitro cynllunio uned o weithgareddau cyfoethog bob pythefnos – tasgau heriol a diddorol yn cael effaith gadarnhaol iawn.
- Effaith y defnydd o TGCH ym mhob dosbarth yn dylanwadu ar y safonau.
- Rhoddwyd targed o 75% o blant dosbarth derbyn yn gallu ysgrifennu brawddeg – Mae... Fy... Roedd... llwyddodd 40% i gyrraedd y nod.
- O ran ysgrifennu'n hyderus a chywir, adroddiad craffu ar lyfrau yn nodi bod llawer o FI 1 a 2 yn cyflawni yn dda neu'n dda iawn gan ddefnyddio atalnodi lefel uwch a chofnodi mewn ffurfiau amrywiol.

Materion gweithredu:

- Ymweld ag ysgolion i rannu arferion rhagorol yn yr ardal tu allan.
- Datblygu'r ardaloedd dan do y tu allan i ddosbarthiadau Tryfan, Ogwen a Ffrydlas.
- Adolygu'r ysgol ddarllen a'i haddasu i'w gwneud yn fwy defnyddiol – cysoni'r cofnodi a'r defnydd ohoni.
- Dadansoddi asesiadau Incerts i adnabod grwpiau targed llythrennedd.
- Cyflwyno strategaeth ffoneg a darllen cynnar i rieni meithrin.
- Dadansoddi prawf darllen cenedlaethol – gweithredu ar y darganfyddiadau.
- Targedu grŵp ffiniol deilliant 5/6 i ysgrifennu'n estynedig mewn gwahanol ffurfiau.

Blaenoriaeth 3

Datblygu sgiliau TGCh y dysgwyr fel eu bod yn hyderus gyda gwahanol gyfryngau o DGCh ac yn gallu trosglwyddo'r sgiliau i wahanol sefyllfaoedd.

Beth sydd wedi ei weithredu yn effeithiol:

- Mwy o ddysgwyr wedi cyrraedd L5 ar ddiwedd CA2 – 15%.
- Offer ac adnoddau angen eu diweddarau ac archebu mwy oherwydd y cynnydd mewn niferoedd plant.
- Llawer o ddysgwyr yn gallu llwytho rhaglenni'n annibynnol.
- Bron pob un dysgwr yn gallu arbed eu gwaith yn y lle cywir a'i enwi a hynny'n annibynnol.

Materion gweithredu:

- Darpariaeth yr ysgol yn datblygu er mwyn sicrhau cyfleoedd addas a phriodol ar gyfer y disgyblion i ddatblygu sgiliau a chynhwysedd digidol.
- Tystiolaeth amrywiol o weithgareddau TGCh buddiol a chyfoethog sy'n datblygu ymhellach sgiliau llythrennedd a rhifedd disgyblion.
- Adroddiadau Cynnydd Athrawon yn nodi bod sgiliau a medrau pob disgybl yn dda ac yn gwneud cynnydd.
- Adroddiadau Cydlynedd yn nodi bod y ddarpariaeth yn dda, sgiliau a safonau disgyblion yn dda, cryfderau a nodwyd yn derbyn sylw.
- Pob dysgwr yn gallu llwytho rhaglenni'n annibynnol.
- Pob dysgwr yn gallu arbed eu gwaith yn y lle cywir a'i enwi a hynny'n annibynnol.
- Dysgwyr yn gallu golygu a gwella'u gwaith a hynny'n annibynnol.

- Tasgau trawsgwricwlaidd TGCh i'w gweld ym mhob dosbarth a hynny'n aml mewn tymor.
- Dysgwyr MAT yn cyfrannu at gynnwys gwefan yr ysgol.
- Dysgwyr yn gwneud defnydd o Hwb+ a'r staff wedi datblygu sgiliau da a hyder wrth gynllunio cyfleoedd priodol.
- Offer ac andodau wedi eu harchebu, yn cael eu defnyddio ac yn cael effaith ar safonau.

Blaenoriaeth 4

Parhau i godi safonau dysgu ac addysgu ac asesu ym mhob dosbarth:

Beth sydd wedi ei weithredu yn effeithiol:

- Adroddiadau monitro yn dangos cynnydd mewn barnau rhagorol.
- Cynlluniau wedi eu haddasu.
- Yr addasu cynlluniau/darpariaeth yn cael effaith dda ar y rhan fwyaf o wersi/safonau. Angen monitro manylach eto a chasglu cynlluniau pawb er mwyn gofalu bod bob dim yn gyfredol.
- Monitro ansawdd unedau/ffurfiau iaith wedi digwydd – rhannwyd adroddiadau monitro.
- Hunanwerthuso gwersi – ar IRIS – arsylwadau yn nodi materion i'w gweithredu.
- Adroddiad arsylwi gwersi yn nodi fod pob un o'r gwersi yn dda neu well gyda llawr yn rhagorol.
- Parhau i gydweithio ar ddyfais 'IRIS' gyda YDO, sydd yn cefnogi athrawon dosbarth i hunanwerthuso gwersi, rhannau o wersi a'r dysgu ac addysgu.

Materion gweithredu:

- Parhau i ddatblygu'r defnydd o 'IRIS' i hunanwerthuso meysydd penodol oddi mewn i wers, yn gyson. Rhannu arferion da yn fewnol hefo staff yr ysgol a YDO.
- Ymgorffori'r flaenoriaeth oddi mewn i'r blaenoriaethau eraill.

Blaenoriaeth 5

Gweithredu cynlluniau, prosiectau, meysydd a gweithgareddau sydd yn canolbwyntio ar lês disgyblion:

Beth sydd wedi ei weithredu yn effeithiol:

- Amserlen a chyllid wedi eu trefnu i hyrwyddo'r holl grwpiau sydd yn rhoi blaenoriaeth i 'lais y plentyn'.
- Camau gweithredu y Wobr Aur wedi eu llunio.
- Achredwyd yr ysgol gyda gwobr aur 'Siarter Iaith Gwynedd' ar ddechrau 2016-17 (wedi ei arwain gan y Dreigiau Bach).
- Adroddiad ar y 'Siarter Iaith' yn nodi'r rhagoriaethau.
- Ymweliad gan aelod cynulliad, Alun Davies, i weld y rhagoriaethau gyda'r Siarter Iaith.
- Rhannu arferion da Siarter Iaith yn draws sirol.
- Achredwyd Ysgol Abercaseg gyda Cam 6 (Rhogoriaeth) yng nghynllun Ysgol Iach Gwynedd.
- Hyfforddwyd staff cyfan gan Derbra Eckley – Ysgol Iach.
- Grwpiau targed grant GAD – yn derbyn gwersi sgiliau bywyd mewn grwpiau bach.
- Amserlen a chyllid wedi eu trefnu i hyrwyddo'r holl grwpiau sydd yn rhoi blaenoriaeth i 'lais y plentyn'.
- Holiadur y Siarter Iaith wedi ei lenwi – data i'w gyflwyno – llawer o weithgareddau i hybu defnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol wedi bod ar waith yn dilyn y wybodaeth a gafwyd o'r holiadur cychwynnol.
- Y flaenoriaeth wedi ei gweithredu yn llawn gyda'r camau gweithredu wedi cael effaith positif ar iechyd a lles yr holl ddisgyblion.

Materion gweithredu:

- Bydd yr ysgol yn parhau i flaenoriaethu'r meysydd uchod.
- Parhau i ddatblygu'r cyswllt gyda'r rhieni – i fod yn gyd-gyfrifol am gefnogi addysg eu plant – trwy waith cartref, gwella sgiliau darllen, nosweithiau cwricwlaidd.
- Ymrwymo i gynllun 'Llofnod Teulu' – yn dilyn llwyddiant Pen-y-Bryn wrth ei gyflwyno, cyd-weithio â staff yr ysgol i gyflwyno'r Llofnod i FI 2.
- Atgyfodi'r cyswllt hefo ysgol bartner yn Surabaya, Indonesia – i ddathlu amrywiaeth diwylliant, crefydd a thraddodiadau.
- UDRh Ysgol Abercaseg ac Ysgol Pen-y-Bryn i gydweithio ar arferion da cynllun Ysgol Iach.
- Dysgwyr i gael ystod o brofiadau a gwersi sydd yn eu datblygu'n gymdeithasol, yn foisol ac yn emosiynol.
- Dysgwyr yn dallu gwneud penderfyniadau gwybodus a chyfrifol.

- Dysgwyr yn aelodau cyfrifol o'r ysgol a'r gymuned.
- Grwpiau dysgwyr yn cymryd cyfrifoldeb dros ddatblygu'r ysgol ymhellach.
- Canran uwch o ddysgwyr yn siarad Cymraeg ar yr iard ac yn ystod amser chwarae gwlyb.
- Gemau buarth yn parhau i fod yn gryfder wrth ymarfer y Gymraeg yn gymdeithasol – rhannu arfer dda gydag ysgolion eraill.
- Amser cylch yn weithgaredd sydd yn cael ei ddefnyddio ym mhob dosbarth er mwyn trafod materion cyfredol/pryderus.
- Dysgwyr yn dysgu am wledydd eraill a'u diwylliannau a thraddodiadau ac yn dangos empathi ac aeddfedrwydd – dyddiau i ddathlu agweddau yn y maes wedi digwydd.

Blaenoriaeth 6:

Arweinyddiaeth a Rheolaeth: parhau i ddatblygu mewnbyn ac atebolrwydd staff cyfan wrth hunanarfarnu a gweithredu cymunedau dysgu proffesiynol ehangach.

Beth sydd wedi ei weithredu yn effeithiol:

- Cyfnodau di-gyswllt wedi eu trefnu ar gyfer cyflawni tasgau penodol HA.
- Cyfarfodydd 'Ysgol i Ysgol' wedi eu trefnu a'u cynnal – un yn canolbwyntio ar ymresymu rhifyddol mewn grŵp traws sirol a'r llall yn barhad o weithgor 'darllen a deall' sydd ar waith ers 2 flynedd hefo Ysgol Bro Llew.
- Y cynlluniau 'ysgol i ysgol' amrywiol wedi datblygu yn dda.
- Arfarniad o weithredu targedau ac amserlen monitro yn yr ysgol yn amlygu'r angen i ddatblygu ac ehangu rolau a dulliau gweithredu.
- Amserlen ymweliadau Llywodraethwyr yn dangos bod angen mwy o gyfleoedd i fynd ar daith addysgol.
- Trafodaethau staff wedi amlygu'r angen i ddatblygu rolau arwain yr holl staff – hyn i gynnwys arsylwi a chraffu, arwain cyfarfodydd ac adrodd ar faes sydd wedi ei fonitro i'r CLI.
- Disgwyliad cenedlaethol / Estyn: I ddatblygu pob aelod o staff i fod yn arweinwyr.

Pa bolisiau a fabwysiadwyd gan y Corff Llywodraethol yn ystod 2015-16?

Mabwysiadwyd y polisiau canlynol gan y Corff Llywodraethol:

- Polisi Camddefnyddio Sylweddau
- Protocol Amddiffyn Plant
- Cynllun Cydraddoldeb
- Cynllun Cydraddoldeb Anabledd
- Polisi Addysg Bywyd a Pherthnasoedd
- Polisi Atal Radicaleiddio
- Polisi Bwyd a Ffitrwydd
- Polisi Gwrth Fwlio
- Polisi Iechyd a Diogelwch

Uchafbwyntiau'r flwyddyn

- Bu'r ysgol yn cystadlu'n frwd yn Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen yn Nhachwedd 2015 a Sioe Dyffryn Ogwen yn Mehefin 2016 (celf a chreffft). Profwyd llwyddiant mewn nifer o gystadlaethau, a braf o beth oedd cefnogi'r eisteddfod a'r sioe leol unwaith eto.
- Cynhaliwyd Cyngerdd Nadolig yn Ysgol Dyffryn Ogwen. Bu i'r plant fwynhau'r profiad yn fawr a bu i chwithau, fel rhieni a gofalwyr hefyd fynegi eich mwynhad.
- Bu'r ysgol yn cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd a chafwyd llwyddiant mewn cystadlaethau llwyfan a chelf a chreffft.
- Bu Cwmni'r Frân Wen yn cynnal gweithdai 'creadigol' gyda disgyblion a chynhaliwyd sesiynau drama a chelf.
- Bu'r awdures Angharad Tomos yn cydweithio â disgyblion Bl 2 i lunio stori a fydd i'w darllen ar ffurf ap.

- Cyhaliwyd gweithdai creu pypedau i ddisgyblion Bl 1 a 2 wedi eu harwain gan Efa Dyfan ac wedi eu trefnu gan Theatr Bara Caws.
- Trefnwyd diwrnod dathlu diwylliant Affrica a chafwyd ymweliad gan gwmni 'Diversions' fel rhan o uned o waith Dinasyddiaeth Byd-Eang.
- Derbyniodd yr ysgol wobwr aur Siarter Iaith Ysgolion Gwynedd.
- Derbyniodd yr ysgol achrediad Cam 6 Ysgol Iach.
- Cynhaliodd Techniquet weithdai ar gyfer blynyddoedd derbyn, 1 a 2 ar 'Gofidion Corfforol', 'Creu Cerddoriaeth', 'Parti Maths' a 'Grymoedd' (datblygu medrau rhifyddol, gwyddonol, cerddorol a hanesyddol y disgyblion).
- Trefnwyd diwrnod Mabolgampau gan gymorthyddion yr ysgol.
- Cynhaliwyd Ffair Haf hynod o lwyddiannus.
- Cynhaliwyd nifer o glybiau yn yr ysgol - Darllen, TGCh, Celf, Drama, Mathemateg, Dreigiau Caseg, Ffrangeg.
- Datblygwyd yr ardaloedd allanol ar gyfer 'Dysgu yn yr Awyr Agored', gan osod cysgodfannau newydd.
- Cynhaliwyd 'Wythnos Cymreictod', 'Wythnos Ailgylchu' ac 'Wythnos Ffitrwydd a Bwyta'n Iach'.
- Casglwyd syniadau'r disgyblion, staff, llywodraethwyr a rhieni am weledigaeth yr ysgol a chomisiynwyd y Prifardd Ieuan Wyn i ysgrifennu englyn yn crynhoi'r weledigaeth honno:

Ysgol Abercaseg

Hwyl antur gaiff y plantos - yn ein hiaith

Wrth gydweithio'n agos

Yn ddyddiol mewn naws diddos,

Yn glên mewn cymuned glòs.

Canlyniadau Aseidiadau Diwedd y Cyfnod Sylfaen

	<u>Lefel 5+</u>	<u>Lefel 6</u>
Llythrennedd	91.7%	62.5%
Rhifedd	95.8%	50%
Personsol a Chymdeithasol	91.7%	91.7%

Deilliant 5 yw'r lefel disgwylidig ar gyfer disgyblion blwyddyn 2. Mae'r tabl uchod yn dangos fel y bu i ganran uchel iawn o ddisgyblion berfformio'n uwch na'r lefel disgwylidig gan sgorio deilliant 6. Yr unig ddisgyblion na lwyddodd i sgorio deilliant 5 neu uwch oedd y rhai hynny a oedd ag anhawsterau dysgu ac yn derbyn cymorth gan athrawes a chymhorthydd AAA.

Beth yw targedau'r ysgol ar gyfer y ddwy flynedd nesaf (Deilliant 5 neu well)

TARGEDAU

	2016-17	2017-18

Personol a chymdeithasol	100%	100%
Llythrennedd, iaith a chyfathrebu	91.43%	96.97%
Datblygiad mathemategol	94.29%	93.94

A oedd presenoldeb y plant yn yr ysgol yn dda?

Mae canranau presenoldeb yr ysgol wedi aros yn debyg dros y dair blynedd diwethaf, ac yn cael ei fonitro'n gyson gan y Llywodraethwyr.

2015/16

Tymor yr Hydref 2015	94.8%
Tymor y Gwanwyn 2016	94.9%
Tymor yr Haf 2016	96.6%

Cyfartaledd presenoldeb y flwyddyn 95.4%

Targed yr ysgol yw **96%**

Absenoldebau awdurdodedig	4.6%
Absenoldebau anawdurdodedig	0%

Roedd hyrwyddo presenoldeb da yn un o flaenoriaethau CDY 2015/16 a bydd yn parhau i gael sylw yn y CDY 2016/17. Mae nifer o strategaethau yn cael eu gweithredu i hyrwyddo presenoldeb da ac fe godwyd targed yr ysgol ar gyfer presenoldeb o 95% yn 2014/15 i 96% yn 2015/16.

Beth yw trefniadau diogelwch yr ysgol?

Mae trefniadau diogelwch i'w dilyn yn yr ysgol ac fe fyddant yn cael eu hadolygu gan y Llywodraethwyr yn ystod y flwyddyn.

Tân: cynhelir ymarferion tân yn rheolaidd. Mae holl aelodau'r staff addysgu yn weithredol yn y broses ymarferion a diogelwch tân. Archwilir y diffoddyddion tân yn flynyddol gan asiantaeth allanol. Profir y goleuadau argyfwng yn rheolaidd.

Mynedfeydd: mae mynedfeydd yr ysgol wedi eu diogelu gyda chlo digidol a barrau gwthio mewnol. Gellir cael mynediad i'r ysgol trwy ganu cloch yn y brif fynedfa. Diogelir tir yr ysgol gan ffensys a gatau.

Adeiladau: cynhelir arolwg o adeiladau'r ysgol yn flynyddol gan is-banel o'r Llywodraethwyr ac mae'r Pennaeth yn cadw golwg ar eu diogelwch o ddydd i ddydd gan hysbysu'r awdurdodau o unrhyw beryglon.

Offer: archwilir offer addysg gorfforol yn flynyddol gan asiantaeth allanol. Archwilir holl offer trydanol yn flynyddol gan asiantaeth allanol.

Cymorth Cyntaf: mae dwy aelod o staff wedi derbyn tystysgrif Cymorth Cyntaf yn dilyn cwrs pedwar diwrnod.

Pa drefniadau a wneir ar gyfer plant anabl?

Caiff camau eu cymryd er mwyn hwyluso mynediad plant anabl i addysg gyflawn gyda rampiau, lifft a thoiled anabl yn yr ysgol. Mae cynllun gweithredu hygyrchedd yn weithredol yn yr ysgol (cynllun ar wefan yr ysgol neu gellir derbyn copi gan y Pennaeth).

Beth wnaeth yr ysgol mewn chwaraeon?

Rhoddir pwyslais ar ddatblygu ffitrwydd yn yr ysgol. Cynhelir 'Dreigiau Bach' gan y cymorthyddion a'r rhieni a caiff y plant gyfle i fynd a bagiau Addysg Gorfforol adref dros y penwythnosau. Cynhelir gwersi Addysg Gorfforol a sesiynau datblygu ffitrwydd yn wythnosol gyda'r ffocws ar ddatblygu sgiliau gymnasteg, dawns a pêl. Bydd plant Blwyddyn 2 yn cael gwersi nofio hefyd. Yn ystod amseroedd chwarae mae cyfle i'r plant chwarae ag offer ffitrwydd.

Beth mae'r ysgol yn ei wneud i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach?

Caiff bwyta ac yfed yn iach ei hyrwyddo'n gyson drwy gwriciwlwm yr ysgol a thrwy'r canlynol:-

BYRBRYDAU

Ffrwythau/llysiau

Mae croeso i'r plant ddod â ffrwythau neu llysiau i'w bwyta yn ystod amser llefrith/dŵr neu gellir prynu ffrwythau yn yr ysgol am gôst o £1.25 yr wythnos. **Ni chaniateir bwyta melysion yn yr ysgol.**

Llefrith

Mae Cynulliad Llywodraeth Cymru yn talu am lefrith i blant ysgolion Cymru i'w yfed yn ystod y dydd yn yr ysgol. Mewn achos lle nad yw'r plentyn yn yfed llefrith, caniateir iddo/iddi yfed dŵr (**ni chaniateir unrhyw ddiod arall**).

Yfed dŵr

Gan bod yr ysgol yn rhan o Gynllun Ysgolion Iach Gwynedd rydym yn awyddus i'r plant ddod â photel o ddŵr gyda hwy i'r ysgol er mwyn iddynt gael yfed dŵr yn ystod y dydd. Yn unol â chanllawiau 'Rheoli Haint ar gyfer Ysgolion Cynradd ac Uwchradd' anogir rhieni i lanhau poteli dŵr yn ddyddiol i leihau'r risg o halogi.

Cinio Ysgol

Mae'r bwydlen cinio'r ysgol yn cyd fynd â chanllawiau dogfen 'Blas am Oes' y Cynulliad. Pan fo plant yn dewis dod a bocsys bwyd rydym fel ysgol yn ceisio annog '**Bocsys Bwyd Iach**'.

YMARFER CORFF

Bydd y plant yn cymryd rhan mewn gwersi addysg gorfforol yn wythnosol yn ogystal â datblygu eu ffitrwydd yn ystod yr amseroedd egwyl a chinio drwy weithgareddau amrywiol sydd wedi eu hamserlenu ac yn cael eu harwain gan y cymorthyddion dosbarth.

Mae'r cymorthyddion, gyda chymorth rhieni'r ysgol, yn cynnal clwb chwaraeon 'Dreigiau Bach' (ar ôl oriau ysgol) i ddatblygu ymhellach ffitrwydd y plant.

CYFLEUSTERAU TOILED

Mae holl doiledau'r ysgol mewn cyflwr da iawn ac yn cael eu glanhau'n ddyddiol. Mae pypiau sebon pwrpasol a sychwyr dwylo ymhob un. Mae'r plant hefyd yn derbyn hyfforddiant ar sut i olchi eu dwylo'n drylwyr.

A fu newid i lawlyfr yr ysgol?

Ni fu newid o ran diwyg i lawlyfr yr ysgol, dim ond diweddarur'r wybodaeth ynddo. Mae'r llawlyfr yn cael ei ddisbarthu i bob cartref ac ar gael i'w ddarllen ar wefan yr ysgol.

Beth ddylwn wneud os wyf yn poeni am agwedd o fywyd yr ysgol?

Cysylltwch â'r Pennaeth yn syth. Mae hi'n fodlon gwrandao ar unrhyw bryder bob amser gyda'r ysgol yn gweithredu'r polisi o 'Ddrws Agored'. Gellir hefyd wneud trefniadau i gyfarfod yr athrawon pan fo rhieni angen trafod unrhyw fater. Mae hefyd yn bosibl cysylltu â llywodraethwr, yna gall ef/hi dynnu sylw'r Pennaeth i'r mater.

Datganiad Ariannol

Derbyniodd y Llywodraethwyr gopi o wariant yr ysgol yn gyson drwy'r flwyddyn a chynhaliwyd trafodaethau cyson i drafod y gyllideb a'r fantolen. Gellir gweld copi o'r gyllideb drwy gysylltu â'r Pennaeth Strategol. Roedd balans ddiwedd blwyddyn ariannol yn dangos ein bod yn cario **£153,125** o'n cyllideb trosodd. Defnyddiwyd **£27,851** ohono i osod y gyllideb a clustnodwyd y gweddill i gynnal y lefel staffio sy'n sicrhau dosbarthiadau gyda llai na 30 disgybl.

Rhoddion

Derbyniwyd rhoddion o **£1900** gan 'Gyfeillion yr Ysgol' yn ystod 2015-16 a defnyddiwyd yr arian i **wella darpariaeth awyr agored** a phrynu 'catering urn'.

Gwariant y Llywodraethwyr ar Gynhaliaeth a Theithio

Penderfynodd y Corff Llywodraethol nad oeddent am hawlio cynhaliaeth a chostau teithio.

Categori Iaith

Ysgol ddwyieithog yw Ysgol Abercaseg, yn unol â Pholisi Iaith Cyngor Gwynedd.

Nod yr ysgol yw adeiladu ar y seiliau a osodwyd yn y Gymraeg gan addysg feithrin, atgyfnerthu a datblygu mamiaith dysgwyr Cymraeg ac, yn achos plant o gartrefi ble siaredir y Gymraeg, ymestyn eu gafael o'r Saesneg.

Gwneir darpariaeth arbennig ar gyfer plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol dwys.

Mae'r ysgol yn adlewyrchu ac yn atgyfnerthu'r polisi iaith yn ei gweinyddiaeth, ei bywyd cymdeithasol a'i threfniadau bugeiliol yn ogystal ag yn ei darpariaeth gwricwlaidd.

Trefniadau Ffedereiddio

Yn dilyn penderfyniad y Pennaeth, Miss Sioned Thomas, i adael ei swydd ddiwedd tymor y Gwanwyn 2016 bu Cyrff Llywodraethol Ysgol Abercaseg a Phen-y-Bryn yn trafod y posibilrwydd o ffedereiddio'r ddwy ysgol. Rhoddwyd cynnig ffurfiol ymlaen a chynhaliwyd cyfnod ymgynghori o 25 Ebrill - 6 Mehefin 2016. Mewn cyfarfod o'r ddau Gorff Llywodraethol a gynhaliwyd ar 7 Gorffennaf 2016, penderfynwyd yn unfrydol i ffedereiddio Ysgol Abercaseg ac Ysgol Pen-y-Bryn.

Bydd y Ffederasiwn yn dod i rym ar 1 Ionawr 2017 gydag un Pennaeth Strategol ac un Corff Llywodraethol mewn gofal o'r ddwy ysgol. Oherwydd hyn bydd Corff Llywodraethol Ysgol Abercaseg yn cael ei ddiddymu ar 31 Rhagfyr 2016.

Dymuna'r Corff Llywodraethol gydnabod eu gwerthfawrogiad o gyfraniad graenus Miss Sioned Thomas i'r ysgol dros nifer o flynyddoedd. Yn ogystal, dymunir yn dda i'r Corff Llywodraethol newydd, y staff a'r disgyblion wrth iddynt gychwyn ar gyfnod newydd cyffrous.